**Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan Ieuenctid Cymru i Ieuenctid y Byd**

Tybed sut sŵn yw sŵn chwiban cadfridog?

A sut sŵn yw gwich llygoden fawr?

Tybed sut arogl yw arogl bwled?

A chyrff mewn ffos? A beth am nwy?

Tybed sut mae llaw yn crynu cyn saethu?

Sut deimlad yw pwyso botwm y bom?

A'i chlywed yn hedfan uwchben?

Tybed beth yw'r ofn yng nghalon rhieni milwr?

Beth yw blas galar am ffrind?

Tybed sut mae mesur y golled?

| | |
|---|---|
| Fesul 16 miliwn? | Y rhyfel byd cyntaf. |
| Fesul 50 miliwn? | Yr ail ryfel byd. |
| Y trydydd? | Tybed? |

Tybed sut fyddai bywyd heb ryfel?

A thybed sut flas sydd ar heddwch?

Sut sŵn yw sŵn tangnefedd? Sut arogl?

A thybed pryd y daw pobl i weld trwy'r celwyddau a phryd y daw casineb i ben?

A phwy a ddaw i roi cymod yn ein byd?

Tybed ai ti?

Ai fi?

Tybed?

*Cred ieuenctid Cymru y gall pobl y byd ddatrys eu problemau heb drais, ac yn 2014, gofynna'r neges hon i arweinwyr y byd gymodi â'i gilydd a dilyn ffordd heddwch.*